*This document is available in English* **Eitem Agenda 5**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Ebrill 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

## ARGYMHELLIAD

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) nodi'r wybodaeth a roddwyd.**

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

## GWYBODAETH

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Ar 7 Ionawr eisteddodd y Cadeirydd ar Banel Cwynion i ddyfarnu ar gŵyn Cam Tri.

7 Ar 9 Ionawr cymerodd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ran mewn gweithdy ar-lein ar gyfer prosiect y Ganolfan Hyfforddi.

8 Ar 15 Ionawr cyfarfu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd â chynrychiolwyr o Undeb y Brigadau Tân (FBU) i drafod papurau agenda cyfarfod llawn yr Awdurdod.

9 Ar 30 Ionawr, bu’r Cadeirydd mewn cyfarfod ar-lein o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

10 Ar 4 Chwefror, bu’r Cadeirydd, ynghyd â'r Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI), y Cynghorydd Arwyn Roberts, mewn cyfarfod hybrid o'r Bwrdd Gwella Diwylliant.

11 Ar 6 Chwefror ymwelodd y Dirprwy Gadeirydd â Gorsaf Dân yr Wyddgrug i gymryd rhan mewn Seremoni Wobrwyo Ffenics mewn perthynas â disgyblion Ysgol Maes Garmon.

12 Ar 24 Chwefror aeth y Dirprwy Gadeirydd i ddigwyddiad Cymraeg Tanio Sgwrs a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân yr Wyddgrug.

13 Ar 26 Chwefror, aeth y Cadeirydd, ynghyd â'r PST a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) Helen MacArthur, i gyfarfod y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol.

14 Ar 10/11 Mawrth roedd y Cadeirydd, ynghyd â'r PSTC Helen MacArthur, wedi cymryd rhan mewn Cynhadledd Tân ac Achub LGA a gynhaliwyd ym Manceinion.

15 Ar 13 Mawrth cymerodd y Cadeirydd ran mewn cyfarfod ar-lein o Banel Gweithredol CLlLC.

16 Ar 20 Mawrth ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Llanfairfechan i fod yn bresennol mewn Seremoni Wobrwyo Ffenics mewn perthynas â disgyblion Ysgol Tryfan.

17 Ar 25 Mawrth bu’r Cadeirydd mewn cyfarfod ar-lein o'r Bwrdd Gwella Diwylliant.

18 Ar 26 Mawrth, eisteddodd y Cadeirydd, ynghyd â'r Cynghorydd Gareth Sandilands, ar banel cyfweld i ddewis Aelod Annibynnol newydd i eistedd ar y Pwyllgor Safonau.

19 Ar 27 Mawrth cymerodd y Cadeirydd ran mewn cyfarfod ar-lein o Banel Gweithredol CLlLC. Yn ddiweddarach yr un diwrnod, cyfarfu'r Cadeirydd, ynghyd â'r PST â'r PSTC Justin Evans, â Rhun ap Iorwerth AS, i'w friffio am y risgiau presennol ac yn y dyfodol sy'n wynebu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau’n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |